Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Panel Rheolau Sefydlog a gynhaliwyd Nos Fercher, 10 Gorffennaf 2019 yn Neuadd Pentref Y Groeslon am 7 yr hwyr.

Minutes of the Standing Orders Panel held at Groeslon Village Hall, Wednesday 10th July 2019 at 7.00pm

Yn bresennol / Present
Cynghorwyr Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones ; Clive Bayley
David Roberts Rheolwr Gweinyddol a Chyllid / Admin & Finance Manager

1 Ethol Cadeirydd am y noson – Elect a Chaiman for the evening

Etholwyd Cyng. Gwyn Owen Jones fel Cadeirydd y cyfarfod.. Diolchodd i pawb am fynychu. Aeth yn syth at y rhaglen.

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Bryn WillHywel J Owen

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant gan yr aelodau oedd yn bresennol.
No member present declared an interest.

4 Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref Model Local Resolution Protocol for Town & Community Councils

Dosbarthwyd copi o'r Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru i bob aelod.

Adroddwyd gan y Rheolwr fod y Cyngor yn ei gyfarfod 24 Mehefin 2019 wedi gofyn i'r Panel bori dros y Model cyn i'r Cyngor ei fabwysiadu.

Dosbarthwyd papur pellach gan y Rheolwr yn egluro pwrpas y Model.

Roedd yr aelodau yn awyddus fod cynnwys y papur yn cael ei gynnwys yn y Model fel cyflawniad.

Aethpwyd ati i ddarllen trwy'r Model.

Codwyd un mater. Roedd yr aelodau am addasu'r paragraff gyntaf o'r Broses ("Y Gwyn") i gynnwys "ond fod y Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn ymwybodol"

Nodwyd gan yr aelodau y bydd y Model yn atgyfnerthu rhan 5 o'r Rheolau Sefydlog sydd yn cyfeirio at Ymddygiad a Chwynion

Argymhellion i'r Cyngor- Fod y Cyngor yn derbyn y Model Brotocol Datrysiad Lleol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref fel a'i derbyniwyd gan Un Llais Cymru ond yn nodi'r un addasiad i'r paragraff cyntaf

Recommendation to Council - For the Council to accept the Model Local Resolution Protocol for Town & Community councils as received by One Voice Wales and noting the one amendment in the first paragraff

5 Rheolau Sefydlog y Cyngor – Para 3.3.7 Council's Standing Orders Para 3.3.7

Ar gais y Rheolwr trafodwyd cymal 3.3.7 o'r Rheolau Sefydlog y Cyngor (a fabwysiadwyd Chwefror 2019) gan fod y cymal hwn yn wahanol i'r Model Rhoi Sefydlog.

RhS y Cyngor -
3.3.7. Ar adeg pan fo pleidlais yn gyfartal, mae i'r Cadeirydd ail bleidlais i greu penderfyniad a hynny ond ar adeg pan mae wedi gwneud defnydd o'i bleidlais wreiddiol. Ni all Cadeirydd ddefnyddio'r ail bleidlais oni bai iddo bleidleisio yn wreiddiol ar y cynnig.

3 q o'r Model
Gall cadeirydd cyfarfod fwrw pleidlais wreiddiol ar unrhyw fater y cynhelir pleidlais arno, a phan mae'r pleidleisio'n gyfartal gall ddefnyddio ei b/phleidlais fwrw os defnyddiodd bleidlais wreiddiol ai peidio.

Adroddwyd gan GOJ fod y Panel RhS wedi trafod y gwahaniaeth hwn lunio'r Rheolau Sefydlog nol yn 2017-18.

Argymhellion i'r Cyngor- Fod y Cyngor yn cyfarwyddo'r Rheolwr i ofyn i Un Llais Cymru i gadarnhau fod cymal 3.3.7 o Reolau Sefydlog y Cyngor yn dderbyniol ac yn gywir

Recommendation to Council -For the Council to direct the Manager to ask One Voice Wales to confirm that para 3.3.7 of the Council's Standing Orders is acceptable and correct.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:05 yr hwyr / The meeting ended 8:05 pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor **Signed by the Chairmam**	
Dyddiad - Date	